

# Atebion

1. Mae rhai pobl yn teimlo'n wael eu bod nhw'n gorfod dod i fanc bwyd; Mae un o'r bobl sy'n dod i'r banc bwyd wedi colli ei swydd ar ôl bod yn sâl; Mae un person yn gorfod dewis rhwng bod yn gynnes a bwyta; Mae un person sydd â dwy swydd yn methu prynu bwyd i'r teulu; Mae'r banc bwyd yn cynnig help i bobl sydd mewn trafferth.
2. Methu cael digon o fwyd i fyw.
3. 1ch); 2d); 3b); 4a); 5c).
4. Enghraifft: Gallan nhw fod yn teimlo'n euog neu'n annifyr eu bod yn gorfod defnyddio banc bwyd; teimlad nad ydyn nhw eisiau cymryd cardod (rhywbeth am ddim).
5. Gobaith y gwirfoddolwr yw ei fod/bod yn cynnig cymorth i bobl ar adeg anodd yn eu bywydau.
6. Fforddio – mae un person yn methu fforddio gwres a bwyd.  
  
Cywilydd – mae rhai pobl yn teimlo cywilydd wrth ddod i mewn.  
  
Drws agored – mae drws y banc bwyd bob amser yn agored. Mae'n symbol o groeso a chymorth.  
  
Y dewis diwethaf – mae'r rhan fwyaf o bobl wedi ceisio datrys eu problemau heb ddod i'r banc bwyd, ond dyma'r dewis olaf sydd ganddyn nhw er mwyn gallu bwyta.  
  
Cyfnod caled – pobl sy'n mynd drwy gyfnod anodd yn eu bywydau sy'n defnyddio'r banc bwyd.
7. Mae saith sillaf ym mhob llinell. Trefn yr odlau: ABCB. Mae pob llinell yn gorffen yn ddiacen, â gair deusill, e.e. iechyd, nid yn unsill ac yn acennog, e.e. iach.